OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1722 (Cy. 166)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *10 Gorffennaf 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *10 Gorffennaf 2013* |

Gwneir y Gorchymyn hwn gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 320 a 321 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008(**1**).

Yn unol ag adran 320(8)(a) o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a chymeradwywyd ef drwy benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983) (Cymru) 2013, a daw i rym ar 10 Gorffennaf 2013.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r diwygiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw gytundeb y mae Deddf Cartrefi Symudol 1983(**2**)yn gymwys iddo, cyn dyfodiad i rym adran 318 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008.

### Diwygiadau canlyniadol

**2.**—(1) Mae Deddf Cartrefi Symudol 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn

(2) Yn adran 1(8A) ar ôl "England" rhodder "and Wales"

(3) Yn adran 2(6) ar ôl "England" rhodder "and Wales"

(**1**) 2008 p.17.

(**2**) 1983 p.34. Yng Nghymru a Lloegr, amnewidiwyd adran 1 a diwygiwyd adran 2 gan adrannau 206 a 265 o Ddeddf Tai 2004 (p.34) a pharagraff 9 o Atodlen 15 i'r Ddeddf honno.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Jeff Cuthbert*
Y Gweinidog Cymunedau a Threchi Tlodi, un o Weinidogion Cymru

10 Gorffennaf 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae adran 318 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 ("Deddf 2008") yn diwygio adran 5 o Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 ("Deddf 1983"), er mwyn dwyn tir, a feddiennir gan awdurdod lleol ar gyfer safle carafannau sy'n darparu llety i sipsiwn a theithwyr, o fewn y diffiniad o safleoedd gwarchodedig at ddibenion Deddf 1983. Pwrpas y Gorchymyn hwn yw gwneud diwygiadau yn Neddf 1983 sy'n ganlyniadol ar ddwyn i rym adran 318 o Ddeddf 2008 mewn perthynas â Chymru ac ar wneud darpariaethau trosiannol perthynol, a wnaed o dan adran 322 o'r Ddeddf honno. Mae'r diwygiadau canlyniadol hyn yn efelychu'r diwygiadau a wnaed yn Neddf 1983 mewn perthynas â Lloegr gan Orchymyn Deddf Tai ac Adfywio 2008 (Diwygiadau Canlyniadol i Ddeddf Cartrefi Symudol 1983) 2011(**3**)

Effaith y diwygiadau canlyniadol a bennir yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yw—

(a) bod hawl meddiannydd i wneud cais i'r llys neu i dribiwnlys, os yw'r perchennog yn methu â darparu datganiad ysgrifenedig, wedi ei datgymhwyso ar gyfer meddianwyr lleiniau pontio ar safleoedd sipsiwn a theithwyr awdurdodau lleol yng Nghymru; a

(b) bod hawl sydd gan barti i'r cytundeb, i wneud cais i'r llys neu i dribiwnlys ynglŷn â thelerau'r cytundeb, o fewn 6 mis ar ôl gwneud y cytundeb neu ar ôl rhoi'r datganiad ysgrifenedig, wedi ei datgymhwyso ar gyfer lleiniau pontio yng Nghymru.

Lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(**3**) O.S. 2011/1004.